

## DIOLCHGARWCH

---

---

### **Gweddi agoriadol:**

*'O Dad, yn deulu dedwydd – y deawn  
Â diolch o'r newydd;  
Cans o'th law y daw bob dydd  
Ein lluniaeth a'n llawenydd.'*

Yn ein haddoliad heddiw, helpa ni i gyfrif ein bendithion, ac i roi ein diolch i ti. Llanw ein calonnau ag ysbryd diolchgarwch, ac ysbryd addoli mewn prydfferthwch sanctaidd, er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 107 – *Gogoniant tragwyddol i'th enw, fy Nuw*

### **Mrs Sarrug:**

*(Daw gwraig i mewn i'r capel o'r tu cefn ar ôl i'r gynulleidfa eistedd. Mae ei gwisg yn flêr, ac mae'n edrych yn sarrug. Mae'n cerdded tua'r sedd flaen, gan aros a siarad efo'r gynulleidfa ar y ffordd)*

'Mrs Sarrug ydw i, ac mae'r oedfa 'ma wedi dechrau eto cyn i mi gyrraedd! Ar y gŵr mae'r bai. Roedd o'n mynnu i mi roi brecwast iddo, a finnau eisiau mynd i'r capel. Dynion yn wir! Mae acw yn cwyno bob munud am y peth lleia'. Mae ganddo gur yn ei ben, neu boen stumog, neu mae ei draed yn oer, neu rywbeth o hyd!

Ac yna'r meddygon 'ma. Wel, 'does 'na ddim posib cael gafael arnyn nhw byth. Maen nhw'n cael eu talu'n dda, a chi a finnau sy'n gorfod gweithio i'w cadw nhw! A beth am y pregethwyr? Un diwrnod yr wythnos maen nhw'n gweithio, ac fe gafodd ein gweinidog ni eleni ddau wyliau ar y cyfandir!

Oes gennyh chi gymdogion da? Wel, mae'r wraig drws nesaf i'n tŷ ni yn mynd ar fy nerfau! Yn ddiweddar, am ryw reswm, 'dyw hi ddim yn edrych arna i – hen drwyn o ddynes ydi hi – meddwl ei bod

hi'n well na phawb arall! Ond dyna fo, hen wraig dlawd ydw i – heb gael cyfle i ddod ymlaen yn y byd. Mae rhai yn lwcus.

O, mae'n well imi eistedd i lawr. O drapia, mae rhywun wedi cymryd fy set i! Mae'n well ichi symud, a gobeithio bydd y pregethwr 'ma ddim yn hir. Mae eisiau gras on'd oes?!'

### **Mrs Siriol:**

*(Daw gwraig i mewn i'r capel o'r dde ar ôl i Mrs Sarrug eistedd. Mae'n cerdded ymlaen i'w sedd yn ysgafndroed ac yn siriol. Mae hithau hefyd yn aros bob hyn a hyn i siarad efo'r gynulleidfa)*

'Mrs Siriol ydw i, a bore da ichi i gyd. Mae'n braf heddiw, a diolch am hynny. Mae cael diwrnod sych yn codi calon rhywun. Mae'n dda gweld tipyn yma. Sut ydych chi i gyd? Rwyf wedi cael annwyd ers wythnos, ond beth yw annwyd i gymharu ag afiechydon rhai pobl? Mae'r wraig drws nesa' druan yn dioddef ers misoedd, ac mae'n gwneud hynny yn ddistaw ac yn ddewr. Ac mae ei gŵr yn ffeind iawn wrthi. Mae fy ngŵr innau'n ffeind hefyd. Nid yw'n berffaith, cofiwch, o bell ffordd, ond mae gen i feddwl y byd ohono, ac mae'n garedig iawn wrth yr hen blant. Mae'n methu dod i'r oedfa'r bore 'ma oherwydd ei waith yn yr ysbyty. Mi faswn i yn hoffi cael ei gwmni'r bore 'ma, ond dyna fo, mi wela i o heno, ac fe gawn swper neis hefo'n gilydd. O, mae'n well imi eistedd rŵan. Rwy'n falch o'ch gweld i gyd. Fe gaf sgwrs hefo chi ar y diwedd!'

### **Llefarydd:**

Wel, tybed faint ohonom sy'n debyg i Mrs Sarrug, a faint ohonom sy'n debyg i Mrs Siriol? Yn fwy na thebyg, mae 'na dipyn o'r ddwy wraig ym mhob un ohonom! Rwy'n siŵr y dymunai pawb ohonom fod fel Mrs Siriol bob amser. Mae cwyno o hyd, a chondemnio pawb a phopeth, a bod yn ddiflas ein hysbryd yn ymddygiad hyll a dweud y lleiaf, ac fel Cristnogion, fe ddylem edifarhau am ymddygiad o'r fath.

Heddiw, yn ein hoedfa ddiolchgarwch, cawn gyfle i daflu ymaith bob ysbryd anniolchgar a diflas, ac i sylweddoli mor dda yw hi arnom mewn gwirionedd. Mae gan Dduw ei ffordd arbennig ei hun o ennyn ynom ysbryd diolchgarwch, ac fe wna hynny wrth inni ei addoli. Rhydd addoli gyfle i'r Ysbryd Glân gynhesu ein calonnau a goleuo ein deall i

wirioneddau mawr bywyd, a'n llenwi ag ysbryd parod i gydnabod ein dyledion.

Cyfrwng effeithiol i greu ynom ysbryd diolchgarwch yw'r Beibl, a thrwy ei ddarllen yn ystyriol, a gwrando ar ei neges, fe'n llenwir â dyhead cywir i ddiolch i Dduw am holl fendithion bywyd. Gadewch inni felly wrando ar Air Duw yn llyfr y Salmuau.

**Darlleniad:** Salm 90

**Gweddi'r Arglwydd:**

**Emyn:** 127 – *Ti, O Dduw, foliannwn*

**Llefarydd:**

*'Diolch fo'n ein calon  
Moliant yn ein cân.'*

Dyma yw byrdwn yr emyn a ganwyd gennym yn awr – moliannu Duw am holl fendithion bywyd. Ond onid yw'n hawdd iawn i ni heddiw fod yn llawen ac yn ddiolchgar ein hysbryd? Mae hi mor dda arnom. Mae gennym deulu a chyfeillion, a chartrefi clyd i fyw ynddynt. Yn wir, mae gennym gymaint o gyfleusterau i'n helpu i fyw bywyd llawn fel na allwn eu cyfrif, megis ysgolion a cholegau a llyfrgelloedd, ysbytai i'r cleifion a chartrefi i'r amddifaid. Yn ogystal â hyn, mae gennym yn ein bro nifer o gymdeithasau i'r ifanc, canol oed, a rhai hen, ac yn yr eglwys hon, rydym yn derbyn yn helaeth o gwmni ein gilydd, ac o fendithion ysbrydol yr Efengyl. Ie, dyledwyr ydym, ac mae rhoddion dyddiol bywyd, megis bwyd a diod ac iechyd, yn ei gwneud yn hawdd inni ddiolch i Dduw. Ie, *'dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl'*.

Fel y dywedwyd, mae'n hawdd iawn i ni, yn ein digonedd, ganu ein diolchgarwch i Dduw, ond nid yw'n hawdd i'r miliynau sy'n dioddef tloedi a newyn enbyd i wneud hynny. Yn ein dyled i Dduw, mae'n briodol inni gofio hefyd ein dyled i'n brodyr a'n chwirydd sy'n brin o'r bendithion a gymerwn ni mor ganiataol.

**Llefarydd:**

**Yn gyntaf, prinder dŵr glân**

Er bod tri chwarter arwynebedd y ddaear dan ddŵr, mae nifer o wledydd yn Affrica a'r Dwyrain Canol mor sych fel nad oes digon o ddŵr ar gyfer dyn nac anifail. Yn ôl adroddiad Brandt, mae prinder dŵr glân yn un o brif achosion afiechydon, ac amcangyfrir fod 25 miliwn o bobl y flwyddyn yn marw o glefydau a gysylltir â phrinder dŵr, neu ddŵr wedi ei wenwyno gan ffatrioedd diwydiannol. Mae angen dŵr ar bopeth byw yn y byd, ac mae naw rhan o ddeg o gorff dyn yn ddŵr. Dŵr yw un o anghenion sylfaenol bywyd, a hebdo, ein tynged fyddai trengi yn fuan. Yng Nghymru, fe'n bendithir gan amlaf â digon o ddŵr ar gyfer anghenion diwydiannol a chymdeithas. Felly, y tro nesaf y cawn gawod o law, peidiwn â rhuthro i gwyno amdano! Yn Israel, ychydig o law a geir, ac mae effaith hynny yn amlwg iawn ar y tir. Mae diffyg dŵr a gormod o haul poeth yn achosi diffeithwch a phrinder tyfiant. I'r Iddewon mae cyflenwad da o ddŵr yn fendith fawr, ac fe fynegir hynny yn y Salm a ddarllenir nesaf.

**Darlleniad:** Salm 65, adnodau 9–13

### **Llefarydd:**

#### **Yn ail, prinder bwyd iach**

Mae gallu dyn i dyfu bwyd heddiw yn fwy ac yn well nag erioed, ond gwaetha'r modd, mae gallu dyn i ddinistrio bywyd a'r byd hefyd yn fwy nag erioed. Bomiau ynteu bara? Dyma'r dewis sy gennym fel cenhedloedd. Ar hyn o bryd, mae llywodraethau cyfoethog ein byd yn gwario mwy ar arfau i ddinistrio nag ar fwyd i gynnal cenhedloedd y trydydd byd.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg llwyddwyd, i fesur helaeth, i ddileu caethwasiaeth, ond mae'n amheus iawn a lwyddwn ni i ddileu'r fasnach arfau. Mae prinder bwyd yn broblem ddychrynlyd i lawer, a thra byddwn fel cenhedloedd yn gwrthod troi cleddyfau yn sychau, a'r gwaywffyn yn bladuriau, fe erys newyn a dioddefaint yn ein byd. Yn y Beibl fe bwysleisir cyfrifoldeb dyn tuag at ei gyd-ddyn, ac yn arbennig tuag at y rhai sy'n dioddef newyn a thlodi. Ni ddylem fel Cristnogion, ar dir cydwybod, ac yn sicr yn wyneb cymhelliad cariad Duw, osgoi ein cyfrifoldeb i wneud ein rhan. Gwrandawn yn awr ar ddarlleniad o'r Beibl.

**Darlleniad:** Llythyr Iago 1: 9–11  
Llythyr Iago 5: 1–6

**Cyd-weddiwn:**

(a) Ein Tad trugarog, y mae dy Air a glywsom yn ein hanesmwytho am ein diffyg awydd i rannu rhoddion dy greadigaeth i'n brodyr a'n chwiorydd sy'n brin o fwyd a diod. Rydym yn euog o gadw mwy na'r hyn sydd ei angen arnom, ac o gau ein clustiau a'n calonnau yn rhy aml i gymhelliad dy gariad.

O Dad, trugarha wrthym trwy ein dwysáu ag ysbryd edifeirwch, a'n nerthu i wneud i eraill fel y dymunem i eraill wneud i ni;  
i fwydo'r newynog drwy roi ein harian i Gymorth Cristnogol,  
i wisgo'r carpiog drwy roi dillad i Oxfam,  
i gartrefu'r amddifad drwy gefnogi Shelter,  
i gysuro'r cleifion drwy ymweld â hwy, ac  
i gynnig gobaiith i'r diobaith drwy dy gariad anfeidrol yn Iesu Grist.

(b) Gweddiwn dros ein gwlad a'n byd. Cyffeswn ein harafwch pechadurus i gofleidio ffordd heddwch. Yn ystod y ganrif hon eto, gwelsom wenwyn a chasineb rhwng cenhedloedd yn achosi dioddefaint a marwolaethau miliynau o'th blant. Er hynny, mae llywodraethau ein byd yn dal i fudrelwa ar y fasnach arfau, ac yn edrych am elyn i'w daro. O Arglwydd, argyhoedda arweinwyr ein byd o oferedd ffordd casineb a rhyfel, a phâr iddynt geisio cymod dy gariad yn Iesu Grist:

*'Fel na byddo mwyach na dial na phoen  
Na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.'* Amen.

**Emyn:** 865 – *O Dywysog ein tangnefedd*

**Llefarydd:**

**Yn drydydd, prinder addysg yn y byd**

Yn ôl adroddiad y Cenhedloedd Unedig, mae hanner plant y trydydd byd yn cael eu hamddifadu o addysg elfennol, ac mae pedwar o bob deg o boblogaeth ein byd yn methu darllen. Mae'n anodd i ni amgyffred

cyflwr o'r fath, ond fe allwn fod yn sicr o un peth. Y mae prinder addysg dda yn cyfyngu ar allu pobl i fyw bywyd llawn.

Rai blynyddoedd yn ôl, cynhaliwyd pwyllgor dan nawdd y Cenhedloedd Unedig i drefnu ymgyrch arbennig i ddysgu pobl anllythrennog ein byd i ddarllen, ond yn fuan yn y drafodaeth fe ofynnwyd y cwestiwn pwysig, Beth fyddai cynnwys eu darllen? Wel, onid gwaith yr Eglwys yw porthi meddwl y miloedd drwy ddarparu digon o lyfrau Cristnogol, ac uwchlaw pob dim, sicrhau fod Beibl i bawb o bobl y byd? Yn ein darlleniadau olaf o'r Beibl heddiw, awn i lyfr y Diarhebion a llythyr cyntaf Pedr.

**Darlleniad:** Diarhebion 4: 1–9  
Llythyr cyntaf Pedr 2: 21–25

**Emyn:** 212 – *Arnom gweina dwyfol Un*

### **Llefarydd:**

Yn yr emyn a ganwyd gennym, fe welwn fod Duw yn amlygu ei gariad tuag atom, nid yn unig yn ei ofal ohonom trwy ei greadigaeth, ond yn ei ymwneud achubol â ni yn ei Fab Iesu Grist. Am hynny, wrth ddiolch i Dduw am fendithion ei greadigaeth, fe ddiolchwn fwy am fendithion yr Efengyl – am neges y Beibl a chymdeithas yr Eglwys, ac uwchlaw pob dim, am Iesu Grist yn Waredwr ein bywyd.

Rydym wedi sôn heddiw am brinder bwyd iach a dŵr glân, a phrinder cyfle gan lawer yn ein byd i gael addysg dda. Ni allwn fodloni ar y sefyllfa, a thrwy nifer o fudiadau dyngarol fe estynnir cyfle inni wneud ein rhan i ddileu anghenion tymhorol ein cyd-ddynion. Ond mae'r Efengyl yn cynnig mwy na hynny hefyd. Fe ddaeth Iesu Grist i'n byd i ddiwallu anghenion dyfnaf ein heneidiau, a heddiw fe ddiolchwn, nid yn unig am fara a dŵr y greadigaeth i gynnal ein cyrff, ond am fara'r bywyd a ddaeth i lawr o'r nefoedd i'n digoni, ac am y dŵr bywiol i ddisychedu ein heneidiau. Yn Efengyl Ioan, fe ddywed Iesu wrthym, *'Myfi yw bara'r bywyd. Ni fydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni fydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi.'* Gadewch inni gofio hyn yn wastad, a chydabod yn ddiolchgar unwaith eto eleni:

*'Gwell na holl drysorau'r llawr  
Yw dy gariad, Iesu mawr;  
Does dim arall yn y byd  
A ddiwalla f'enaid drud;  
Dyma'r trysor mwya'i fri,  
Dyma leinw f'enaid i.'* Amen.

**Emyn:** 97 – *Anfeidrol Dduw rhagluniaeth*

**Mrs Sarrug:**

Wel, dyna i chi oedfa dda. Rwy'n teimlo'n well rŵan, ac rwy'n falch 'mod i wedi dod. A chyda llaw, 'dyw'r gŵr ddim mor ddrwg â hynny. Er ei fod yn cwyno gormod, mi ges i gusan fawr ganddo'r bore 'ma. Y gwir yw, mae'n dda iawn arnom ni, a diolch hefyd am iechyd a chyfle i ddod i'r capel. Mae Duw wedi rhoi imi ganwaith mwy na'r hyn rwy'n ei haeddu, a diolch iddo am bopeth.

**Mrs Siriol:**

Wel, mae oedfa fel hon yn fraint ac yn fendith. Fel Mrs Sarrug, rwyf innau hefyd yn teimlo'n well. Rydym yn derbyn cymaint o fendithion Duw bob dydd, ac yn yr oedfa hon fe gawsom gyfle i sylweddoli cymaint mwy mae Duw wedi ei roi inni. Fe roddodd inni, nid yn unig roddion y greadigaeth, ond ei Fab Iesu Grist yn ffrind ac yn Geidwad.

*'Diolchaf am dy gariad cu  
Yn estyn hyd fy oes;  
Diolchaf fwy am Un a fu  
Yn gwaedu ar y groes.'* Amen.

**Emyn:** 49 – *Diolch i ti, yr hollalluog Dduw*

**Y Fendith:**

*'Boed fy mywyd oll yn ddiolch  
Dim ond diolch yw fy lle.'*

Derbyn ein diolch, O Dad daionus, a derbyn ein clod am dy gariad mawr yn Iesu Grist. Yn nerth dy ras, anfon ni allan o'r oedfa hon i wasanaethu yn ysbryd dy gariad, ac i fyw er gogoniant i'th enw, yn awr a hyd byth. Amen.